OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1899 (Cy.181)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008

Gwnaed - - - -	*16 Gorffennaf 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Mehefin 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 101(3)(a), 105(6), 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) ac (11), a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**);

Yn unol ag adran 117 o Ddeddf Addysg 2002, i'r graddau y gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau yn adran 105(6) o'r Ddeddf honno, gwnaeth Gweinidogion Cymru y fath drefniadau ag a ystyrient yn briodol ar gyfer ymgynghori ynglŷn â'r cynigion;

Yn unol ag adran 210(3) o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i cymhwysir gan baragraff 34(2)o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**)) cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo gan benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008 a daw i rym ar 1 Awst 2008.

Diwygiadau i adran 101(1)(bb) o Ddeddf Addysg 2002

2.—(1) Yn Adran 101(1)(bb) o Ddeddf Addysg 2002(**4**) yn lle "during the fourth key stage" rhodder y geiriau "during the third and fourth key stages".

(**1**) 2002 p.32

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2006 p.32. At ddibenion paragraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y "swyddogaeth gyfatebol" i Weinidog y Goron mewn perthynas â Lloegr yw'r swyddogaeth a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 80(3)(a), 84(6) ac 87 o Ddeddf Addysg 2002.

(**4**) Mewnosodwyd gan erthygl 2(1) a (3) o O.S. 2003/932 (Cy.122).